**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar ddydd Mercher, 2 Hydref 2019.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen a Robin Williams |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Dafydd Roberts |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Aled M Jones (cais 7.1); Dylan Rees (cais 12.1). |

1.00 o'r gloch - 2.15 o'r gloch

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Medi, 2019. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau â safleoedd cynllunio a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2019 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Roedd siaradwr cyhoedd mewn perthynas â chais 10.2. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EI GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2019/ - Cais llawn ar gyfer addasu adeilad allanol yn saith fflat ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau yn Capel Carmel, Lôn Capel, Amlwch.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog gyda'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig yn amodol ar gytundeb A106 mewn perthynas â Tai Fforddiadwy.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **10.1 FPL/2019/201 - Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir ger Tegfan, Llanynghenedl.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**10.2 VAR/2019/49 - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (11)(Cynllun Draenio) o ganiatâd cynllunio rhif 46C168A/FR (Codi annedd) a'r cais dilynol ar gyfer materion a gadwyd yn ôl cyfeirnod 46C168D/DA fel bod dŵr budr o'r annedd yn cael ei ollwng i waith trin carthffosiaeth ar y safle yn hytrach nag i'r system garthffosiaeth gyhoeddus ar dir ger Trearddur House, Bae Trearddur.** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddiwygio Amod 8 y dylid cyflwyno cynllun cynnal a chadw a'i gymeradwyo.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 HHP/2019/190 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ar gyfer creu anecs hunan gynaliadwy yn Bryn y Môr, Lôn Bryn y Môr, Y Fali.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 OP/2019/5 - Cais amlinellol ar gyfer dymchwel yr adeiladau presennol ynghyd â chodi 52 annedd fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion llawn am y fynedfa i gerbydau ar dir ger Huws Gray, Stryd y Bont, Llangefni.**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.2 FPL/2019/200 – Cais llawn i godi ffensys yn Ysgol Gynradd Pentraeth, Ffordd Tanrallt, Pentraeth.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.3 FPL/2019/226 - Cais llawn ar gyfer codi tri chaban gwyliau, creu trac mynediad, diwygio'r fynedfa bresennol ynghyd â gosod cyfleuster trin carthffosiaeth ar dir yn Fronwen, Niwbwrch.**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle am y rhesymau a roddwyd.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **13.1 FPL/2018/57 - Cais llawn ar gyfer codi 46 o dai ynghyd â chreu mynedfa newydd ar dir ger Parc Tyddyn Bach, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **caniatáu'r cais yn amodol ar y cynllun tirlunio a chytundeb cyfreithiol A106 fel y nodir yn yr adroddiad;**<br>• **rhoi hawl i weithredu i Swyddogion wedi i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol ddod i ben.** |